

Y Pwyllgor Cymunedau,  
Cydraddoldeb a Llywodraeth  
Leol



Cynulliad National  
Cenedlaethol Assembly for  
Cymru Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay  
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

8 Rhagfyr 2011

Annwyl Syr / Madam

### Ymgynghoriad ar y *Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)*

Fel rhan o'i ystyriaethau Cyfnod 1, mae Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw am dystiolaeth ar egwyddorion cyffredinol y *Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)*.

#### Beth yw Bil?

O dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gall y Cynulliad Cenedlaethol wneud deddfau mewn meysydd lle mae ganddo'r pwerau deddfwriaethol i wneud hynny.

Pan gaiff cynnig ar gyfer deddf newydd ei gyflwyno yn y Cynulliad Cenedlaethol, caiff ei alw'n 'Fil'.

Defnyddir proses pedwar cyfnod ar gyfer ystyried Bil. Yng Nghyfnod 1, caiff egwyddorion cyffredinol y Bil eu hystyried gan bwyllgor (sy'n cynnwys casglu dystiolaeth ysgrifenedig a llafar gan y rhieni sydd â diddordeb a chan randdeiliaid), a rhaid i'r Cynulliad gytuno ar yr egwyddorion hynny.

Pan gaiff Bil ei basio ac ar ôl iddo gael Cydsyniad Brenhinol, mae'n dod yn 'Ddeddf Cynulliad'.

#### **Beth mae'r Bil hwn yn ceisio'i gyflawni?**

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n gysylltiedig â'r Bil yn nodi:

Ffon / Tel: 029 2089 8147  
Ffacs / Fax: 029 2089 8021  
Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: [Pwyllgor.CCLL@cymru.gov.uk](mailto:Pwyllgor.CCLL@cymru.gov.uk)

“Mae’r Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) arfaethedig yn gweithredu cynigion Llywodraeth Cymru i symleiddio’r gweithdrefnau ar gyfer gwneud a gorfodi is-ddeddfau awdurdodau lleol. Mae’r Bil yn cyflwyno gweithdrefn amgen i awdurdodau lleol ei dilyn wrth wneud nifer o is-ddeddfau. Ar gyfer yr is-ddeddfau hyn, mae’r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau ymgynghori’n lleol cyn gwneud is-ddeddf ac yn cael gwared ar y gofyniad i Weinidogion Cymru ei chadarnhau. Mae’r Bil arfaethedig hefyd yn cynnig dull amgen opsiynol, a mwy effeithlon, o orfodi drwy hysbysiadau cosb benodedig. Yn olaf, mae’r Bil hefyd yn diwygio ac yn cydgrynhoi’r darpariaethau cyfredol ar is-ddeddfau yn adrannau 235 i 238 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Cam yw hyn i gyfeiriad datblygu Llyfr Statud i Gymru ac mae’n sicrhau bod y darpariaethau deddfwriaethol allweddol ynghylch gwneud, cadarnhau a gorfodi is-ddeddfau yng Nghymru ar gael mewn un deddfiad.”

### **Beth yw rôl y pwyllgor?**

Rôl y pwyllgor yw ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil ac adrodd arnynt. Wrth wneud hynny, mae’r Pwyllgor wedi cytuno i weithio o fewn y fframwaith a ganlyn:

Ystyried:

- i) yr angen i’r Bil ddarparu’r amcanion penodol a ganlyn:
  - galluogi awdurdodau lleol i gymryd perchnogaeth dros ddeddfau lleol;
  - darparu dull mwy uniongyrchol o orfodi drwy ddefnyddio hysbysiadau cosb benodedig;
- ii) a yw’r Bil yn cyflawni’r amcanion a nodwyd ynddo;
- iii) y darpariaethau allweddol sydd wedi’u nodi yn y Bil ac a ydynt yn briodol ar gyfer cyflawni’r amcanion;
- iv) rhwystrau posibl i weithredu’r darpariaethau allweddol ac a yw’r Bil yn rhoi ystyriaeth iddynt;
- v) a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn codi o’r Bil;
- vi) barn rhanddeiliaid a fydd yn gorfod gweithio o dan y trefniadau newydd.

### **Sut allwch chi helpu – cwestiynau’r ymgynghoriad**

Ffon / Tel: 029 2089 8147  
Ffacs / Fax: 029 2089 8021  
Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: [Pwyllgor.CCLL@cymru.gov.uk](mailto:Pwyllgor.CCLL@cymru.gov.uk)

Mae rhagor o fanylion am y Bil a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig i'w gweld ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol yn:  
<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?IId=2413>

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'w gynorthwyo yn ei waith o graffu ar y Bil. Yn arbennig, byddai'n croesawu eich atebion i'r cwestiynau a restrir yn **Atodiad 1**.

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i  
[Pwyllgor.CCLLl@cymru.gov.uk](mailto:Pwyllgor.CCLLl@cymru.gov.uk).

Neu, fel arall, gallwch ysgrifennu at:  
Leanne Hatcher, Dirprwy Clerc y Pwyllgor, Y Swyddfa Ddeddfwriaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

**Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn 2 Chwefror 2012. Efallai na fydd yn bosibl ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.**

Mae rhagor o wybodaeth am y **broses ddeddfwriaethol** i'w chael yn:  
<http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-guidance.htm>

Wrth baratoi eich tystiolaeth, dylech ystyried y pwyntiau a ganlyn:

- dylai eich ymateb fynd i'r afael â'r materion sydd gerbron y Pwyllgor;
- bydd y Cynulliad Cenedlaethol fel arfer yn cyhoeddi ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ar ei wefan, ac efallai y bydd Aelodau'r Cynulliad yn eu gweld a'u trafod mewn cyfarfod pwyllgor hefyd. **Os nad ydych am i ni gyhoeddi eich ymateb neu'ch enw, mae'n bwysig eich bod yn nodi hyn yn glir wrth gyflwyno eich tystiolaeth;**
- nodwch a ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu fel unigolyn; a
- nodwch a fydddech yn barod i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Bethan Davies, Clerc y Pwyllgor, ar 029 2089 8120, neu â Leanne Hatcher, y Dirprwy Clerc, ar 029 2089 8147.

Yn gywir



Ann Jones AC  
Cadeirydd y Pwyllgor

Ffon / Tel: 029 2089 8147  
Ffacs / Fax: 029 2089 8021  
Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: [Pwyllgor.CCLLl@cymru.gov.uk](mailto:Pwyllgor.CCLLl@cymru.gov.uk)

## **Atodiad 1**

### **Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

1. A oes angen Bil i ddiwygio ac atgyfnerthu deddfwriaeth ynglŷn â gwneud is-ddeddfau a'u gorfodi? Esboniwch eich ateb i'r cwestiwn hwn.
2. A ydych yn credu y bydd y Bil 'yn sicrhau bod is-ddeddfau awdurdodau lleol yn dod yn ddull rheoleiddio mwy effeithiol' (fel y dywedir ym mharagraff 3.16 y Memorandwm Esboniadol)?
3. A yw'r adrannau yn y Bil yn briodol o ran diwygio'r deddfau presennol sy'n ymwneud ag is-ddeddfau? Os nad ydynt, pa newidiadau sydd angen eu gwneud i'r Bil?
4. (a) Sut y bydd y Bil yn newid y dull presennol o lunio is-ddeddfau a pha effaith a gaiff newidiadau o'r fath, os o gwbl?  
(b) Yn arbennig, a yw'r Bil yn cyflawni ei nod o geisio symleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud is-ddeddfau (yn bennaf drwy ddileu'r gofyniad bod Gweinidogion Cymru yn cadarnhau is-ddeddfau newydd penodol)?
5. Beth yw'r rhwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil (os o gwbl) ac a yw'r Bil yn eu hystyried?
6. Beth yw eich barn am y gweithdrefnau ar gyfer gwneud is-ddeddfau (adrannau 6 i 9)?
7. A yw darpariaethau'r ymgynghoriad sydd wedi'u hamlinellu yn y Bil yn foddhaol o ran sicrhau bod gwaith ymgynghori priodol yn digwydd cyn dirymu, diwygio, gwneud neu gadarnhau is-ddeddfau (adrannau 4 i 8)?
7. (a) A ydych yn fodlon â'r darpariaethau gorfodi yn y Bil (adrannau 10 i 15)?  
(b) Yn arbennig, a oes gennych unrhyw sylwadau ar y cynigion atafaelu yn adran 11, ac ar y cosbau a gynigir yn adrannau 10(2) a 14(3)?

### **Goblygiadau Ariannol**

8. Beth yw goblygiadau ariannol y Bil, os o gwbl? Wrth ateb y cwestiwn hwn, hwyrach y byddwch am ystyried Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol (yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol), sy'n amcangyfrif costau a buddiannau gweithredu'r Mesur arfaethedig.

9. A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ar adrannau penodol yn y Bil?

### **Is-ddeddfwriaeth**

10. Beth yw eich barn am y pwerau yn y Bil sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru lunio is-ddeddfwriaeth (hy, offerynnau statudol gan gynnwys rheoliadau a gorchmynion)?
11. A oes gennych unrhyw sylwadau i'w gwneud ynghylch a yw'r pynciau y cyfeirir atynt yn yr Atodiadau mewn gwirionedd yn briodol ar gyfer eu rheoleiddio drwy is-ddeddfau?

Ffon / Tel: 029 2089 8147  
Ffacs / Fax: 029 2089 8021  
Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: [Pwyllgor.CCLL@cymru.gov.uk](mailto:Pwyllgor.CCLL@cymru.gov.uk)